

# Ymlaen: Interniaeth y Senedd ar gyfer graddedigion o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Y Gyfarwyddiaeth Busnes



## Yr interniaeth

Rydym am gynnig interniaeth hyfforddi 12 mis â thâl i bedwar graddedig o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig. Bydd yr interniaid yn cael eu gosod mewn amrywiol feysydd yn y sefydliad - yn y ddogfen hon ceir rhagor o wybodaeth am y ddau leoliad yn y Gyfarwyddiaeth Busnes. Ni fydd yr interniaid yn cael eu cyflogi gennym ni ac nid yw'r interniaeth yn cynnig nac yn gwarantu rôl barhaol ar ddiwedd y cyfnod o 12 mis. Y nod yw i'r interniaid ddatblygu'r sgiliau, y profiad a'r gallu sy'n ofynnol ar gyfer rôl gyflogedig o fewn Comisiwn y Senedd neu rywle arall.

Mae hyfforddiant yng Nghomisiwn y Senedd yn golygu y byddwch wrth wraidd gwleidyddiaeth Cymru, gan ddatblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth ar y ffordd orau o lywio gweithle prysur a chyffrous lle mae deddfau Cymru yn cael eu llunio. Mae'r interniaeth yn gyfle gwych sydd wedi'i gynllunio i roi'r ddealltwriaeth a'r gallu ichi ddatblygu o fewn sefydliad amrywiol a chynhwysol.

## Cyfleoedd datblygu a gynigir

Yn ystod yr interniaeth, byddwch yn cael cefnogaeth barhaus gan ein tîm Datblygu Sefydliadol. Byddant yn cynnig cyfoeth o adnoddau a chefnogaeth, gan sicrhau bod gennych yr holl adnoddau sydd eu hangen arnoch i dyfu ac i ffynnu yn y Senedd. Byddant hefyd yn trefnu cyrsiau a digwyddiadau hyfforddi allanol i annog eich dysgu ynghyd â chynnig yr holl gyfleoedd gwych mewn dysgu a datblygu a roddir i'n staff.



**INVESTORS IN PEOPLE™**  
We invest in people Platinum  
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Platinwm



# Croeso gan Bennaeth y Gwasanaeth



## Anna Daniel, Pennaeth y Gwasanaeth Trawsnewid Strategol

### Croeso

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â Chomisiwn y Senedd fel intern yng Nghyfarwyddiaeth Busnes y Senedd.

Rwy'n falch iawn ein bod yn partneru â Chymrodoriaeth Windsor i allu cynnig cyfle ichi ddysgu a datblygu eich sgiliau gyda ni. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda hwy i gymryd camau cadarnhaol penodol i wella amrywiaeth ein timau, lle mae'r rhai o gefndiroedd penodol yn cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd.

Mae'r Senedd wedi bod yn ddeddfwrfa flaengar ag awydd i arloesi erioed. Mae'n amgylchedd cyffrous, prysur i weithio ynddo, ag ethos un tîm gwobrwyl gwyd ac ymdeimlad cryf o ddiben, yn ogystal â brwdfrydedd dros ddemocratiaeth yng Nghymru. Rydym wedi ymrwymo i adeiladu gweithlu cryf, amrywiol, sy'n adlewyrchu'r cymunedau y mae Aelodau o'r Senedd yn eu cynrychioli yng Nghymru. Credwn fod hyn yn chwarae rhan bwysig wrth gyfrannu at Aelodau'n derbyn cefnogaeth seneddol ragorol.

Mae staff yn y Gyfarwyddiaeth Busnes yn darparu cefnogaeth ddiuedd a rhagorol i Aelodau o'r Senedd. Mae ein staff yn ymwneud â chefnogi'r Cyfarfod Llawn, cyfarfodydd pwyllgor a chyfarfodydd Bwrdd, drafftio adroddiadau ac allbynnau eraill, briffio Aelodau a chydgyssylltu'r gefnogaeth a ddarperir gan y timau traws-sefydliadol. Gallant fod yn rhan o ymholiadau polisi, a gweithgareddau ymgynghori, craffu ar weithgarwch a deddfwriaeth y llywodraeth, a phrosiectau arbennig.

Yn y Gwasanaeth Trawsnewid Strategol, mae ein gwaith yn cynnwys ategu blaenoriaethau strategol ein Haelodau wrth i'r agenda gyfansoddiadol a gwleidyddol ddatblygu. Mae'r pwyllgorau y mae fy ngwasanaeth yn eu cefnogi wrth wraidd ysgogi newid yn y Senedd.

Rydym yn falch ein bod yn cymryd camau cadarnhaol ac yn chwilio am ymgeiswyr am y cyfle hwn o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig. Rydym yn cael ein cydnabod fel buddsoddwyr rhagorol mewn pobl ac rydym wedi ymrwymo i'ch cefnogi drwy eich interniaeth.

Os yw'r cyfle o ddiddordeb i chi ac yn eich cyffroi, byddem yn falch o glywed gennych.

**Teitl:** Interniaeth y Senedd - Cyfarwyddiaeth Busnes (2 leoliad)

Cewch eich talu £31,388 am y flwyddyn

**Cyfnod:** 12 mis - cyfnod penodedig

**Gwasanaeth:**

- Y Gwasanaeth Trawsnewid Strategol
- Y Gwasanaeth Pwyllgorau

**Cymhwysra:**

1. Mae gennych yr hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiadau. Sylwer nad yw'r Senedd yn noddi fisâu gwaith
2. Rydych yn byw yng Nghymru
3. Rydych yn dod o gefndir Du, Asiaidd a/neu leiafrif ethnig
4. Rydych wedi byw yn y Deyrnas Unedig neu Iwerddon am o leiaf tair blynedd (mae hyn yn ofynnol ar gyfer y broses fetio diogelwch cenedlaethol)
5. Rydych wedi graddio o'r brifysgol erbyn i'r cynllun ddechrau
6. Rydych ar gael i wneud yr interniaeth rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ebrill 2023

**Lleoliad:** Y Senedd, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

Byddwch yn gweithio yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd fel arfer ond, yn unol â Rheoliadau a chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru, byddwch yn gweithio gartref i ddechrau. Cewch y cymorth a'r cyfarpar angenrheidiol er mwyn caniatáu ichi fodloni gofynion yr interniaeth gartref.

Wrth i gyfyngiadau COVID-19 lacio, yn y dyfodol efallai y bydd gofyn ichi fynd i ystâd y Senedd, aros gartref, neu gyfuniad o'r ddau, yn ôl anghenion y cynllun interniaeth.

---

Rhaglen hyfforddi amser llawn yw hon, er y bydd trefniadau hyblyg yn cael eu hystyried, yn amodol ar fodloni gofynion yr interniaeth.

**Cliriad diogelwch:** Penderfynwyd bod angen fetio diogelwch ar lefel 'CTC' ar gyfer yr interniaethau hyn. O ran yr ymgeiswyr nad oes ganddynt gliriad ar y lefel hon ar hyn o bryd, byddent yn cael eu penodi yn amodol ar gwblhau'r fetio diogelwch yn llwyddiannus ar y lefel hon.

---

Rydym yn cynnig dwy interniaeth o fewn Cyfarwyddiaeth Busnes y Senedd. Bydd un o fewn y Gwasanaeth Trawsnewid Strategol a bydd y llall o fewn y Gwasanaeth Pwyllgorau. Mae'r lleoliadau hyn yn gofyn am sgiliau a phrofiad cyffredin ac o'r herwydd, maent yn rhannu'r un meini prawf a chymwyseddau a chânt eu hasesu ar y cyd. Os hoffech nodi maes gwasanaeth o ddewis, dylech wneud hyn yn eich ffurflen gais.

## Y Gwasanaeth Trawsnewid Strategol

Mae Comisiwn y Senedd yn cymryd rhan mewn rhaglen uchelgeisiol o ddiwygio etholiadol a sefydliadol. Fel intern yn y Gwasanaeth Trawsnewid Strategol, bydd eich hyfforddiant yn cynnwys dysgu sut i nodi, cydgysylltu a chomisiynu ystod o gefnogaeth. Bydd hyn yn eich cynorthwyo i ddatblygu eich gwybodaeth am weinyddu a rheoli swyddogaethau tîm, gan gynnwys ymwybyddiaeth gynyddol o waith diwygio'r Senedd a blaenoriaethau eraill y Cyfarwyddiaeth.

Bydd yr intern llwyddiannus yn adeiladu ar ei sgiliau trefnu rhagorol ac yn gwella ei allu i weithio'n ddigynnwrf dan bwysau gan ymateb yn gyflym mewn amgylchedd prysur ac yn ôl blaenoriaethau sy'n newid. Byddwch yn meithrin sgiliau rhyngpersonol gwyb ac yn cynnal perthnasau proffesiynol ar draws y sefydliad a chyda phartneriaid allanol.

Bydd yr intern llwyddiannus yn datblygu dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion y Senedd, a sut y maent yn ymwneud â gwaith y gwasanaeth, yn ogystal â'r Senedd. Byddwch yn gallu arddangos didueddrwydd bob amser wrth gyflawni eich tasgau hyfforddi a datblygu'r gallu i gydnabod pryd i gyfeirio materion/penderfyniadau at uwch-swyddogion.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn cefnogi pwyllgorau a bydd gan yr intern hefyd y cyfle i ddysgu sut i gefnogi'r broses o gydgysylltu a darparu gwaith tîm pwyllgor, yn debyg i'r hyn yng Ngwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth (gweler isod).

Gan weithio gydag eraill yn y Gwasanaeth, wrth i'r interniaeth fynd yn ei blaen bydd disgwyl ichi ddangos eich gallu i ddarparu cymorth sefydliadol rhagorol a dangos moeseg gref sy'n rhoi pwyslais ar wasanaeth. Byddwch yn ennill y sgiliau angenrheidiol i reoli tasgau amrywiol mewn modd hyblyg a rhagweithiol.

## Y Gwasanaeth Pwyllgorau

Bydd yr intern yn y ddau wasanaeth pwyllgor hyn yn ennill profiad uniongyrchol o ymdrin ag Aelodau o'r Senedd, uwch-swyddogion, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn ystod cyfnod pwysig i wleidyddiaeth Cymru. Fe'ch lleolir o fewn gwasanaeth sy'n gyfrifol am gefnogi busnes y Senedd yn y Cyfarfod Llawn ac mewn amryw bwyllgorau.

Bydd angen sgiliau trefnu o'r radd flaenaf arnoch; y gallu i ymateb yn hyblyg i flaenoriaethau sy'n newid a sgiliau rhyngpersonol cryf.

Bydd yr intern llwyddiannus yn dysgu sut i gefnogi'r broses o gydgysylltu a chyflawni gwaith y tîm, sydd fel rheol yn cynnwys y rolau a ganlyn i bwyllgorau:

- Clerc: Yn arwain y tîm ac yn darparu goruchwyliaeth strategol ac arbenigedd gweithdrefnol;
- Ail Clerc: Yn darparu capasiti uwch ychwanegol o fewn rhai timau er mwyn galluogi sawl darn o waith i redeg ochr yn ochr;
- Dirprwy Clerc: Yn cefnogi'r Clerc a'r Ail Clerc, yn gyfrifol am gefnogi'r broses o gydgysylltu a chyflawni gwaith y tîm; a
- Chymorth Tîm: Yn cefnogi'r broses o drefnu gwaith y tîm.

Byddwch yn datblygu perthnasau gwaith cryf gyda chydweithwyr o feysydd gwasanaeth eraill (megis ymchwilyr, cyfreithwyr, cyfieithwyr ac arbenigwyr cyfathrebu) wrth ichi ddysgu sut i fod yn rhan effeithiol o dîm amlddisgyblaethol sy'n perfformio'n dda.

## Ymarferion hyfforddi allweddol

Bydd yr ymarferion a ddisgwylir yn y ddau leoliad (Gwasanaeth Trawsnewid Strategol a Gwasanaeth y Pwyllgorau) yn cynnwys:

- Dysgu sut i ddarparu cefnogaeth weinyddol i fyrddau a grwpiau mewnol yn ôl yr angen (gan gynnwys dysgu sut i ddrafftio cofnodion, cydgysylltu briffiadau a chyngor, a rhoi cefnogaeth sefydliadol ar gyfer cyfarfodydd rhithwir, hybrid ac yn bersonol);
- Datblygu'r gallu i ddarparu cefnogaeth a chymorth ychwanegol i gyrff ffurfiol fel y Cyfarfod Llawn, pwyllgorau'r Senedd a'r Bwrdd Taliadau<sup>1</sup>;
- Datblygu'r gallu i ddod yn gyswilt proffesiynol, dibynadwy, sy'n gallu ymateb i eraill, rhwng y tîm a gweddill y sefydliad a phartneriaid allanol; cynnal perthynas waith effeithiol â thimau allweddol/eraill yn y gwasanaeth;
- Cael profiad o gydgyssylltu a chomisiynu gwaith ar draws timau a dyrannu gwaith i eraill yn effeithiol, o fewn amserlenni priodol;
- Cyfrannu at y broses o reoli a chydgyssylltu rhaglen gyfathrebu fewnol mewn perthynas â phob agwedd ar waith y gwasanaeth, gan gynnwys ceisio a chydgyssylltu cyfraniadau gan aelodau'r tîm ac eraill fel y bo'n briodol;
- Dysgu sut i gynllunio, llunio ac adolygu adroddiadau a dangosfyrddau'r rhaglen fel y bo'n briodol, gan dynnu sylw at faterion, a bwrw ymlaen â chamau gweithredu angenrheidiol;
- Datblygu profiad mewn arwain a/neu hwyluso prosiectau tîm, Gwasanaeth neu Gyfarwyddiaeth yn ôl yr angen ar gyfer eich hyfforddiant a'ch datblygiad;
- Helpu i reoli sianeli cyfryngau cymdeithasol yn ôl yr angen.

---

<sup>1</sup> Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gorff annibynnol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y taliadau a'r adnoddau cywir ar gael i Aelodau o'r Senedd fel y gallant ymgymryd â'u rôl.

## Sgiliau a chymwyseddau penodol:

Mae'r adran hon yn nodi pa sgiliau a phrofiad yr ystyrir eu bod yn hanfodol ar gyfer y ddau leoliad (Gwasanaeth Trawsnewid Strategol a Gwasanaeth Pwyllgorau).

Dylech gyfeirio at y meini prawf a ganlyn yn eich ffurflen gais.

### Meini prawf:

1. Sgiliau trefnu ardderchog a llygad craff, gyda'r gallu i flaenoriaethu eich amser yn effeithiol ac ymateb yn hyblyg i newidiadau ar y funud olaf neu flaenoriaethau gwahanol.
2. Sgiliau rhyngpersonol cryf a'r gallu i weithio fel rhan o dîm: Y gallu i weithio'n effeithiol fel rhan o dîm bach ac i weithio'n hyderus gyda staff ar bob lefel a rhanddeiliad allweddol.
3. Sgiliau cyfathrebu cryf ar lafar ac yn ysgrifenedig.
4. Gwybodaeth weithredol dda am becynnau Microsoft Office, gan gynnwys Word, Outlook ac Excel.
5. Ymrwymiad a'r gallu i ddarparu lefel uchel o wasanaeth i gwsmeriaid.

## Meini prawf o ran y Gymraeg:

Mae'r sgiliau ieithyddol ar gyfer yr interniaeth hon wedi'u hasesu fel lefel Cymraeg Cwrteisi.

Dylai ymgeiswyr fod yn gallu:

- Ynganu enwau Cymraeg, ateb y ffôn, cyfarch pobl neu gyflwyno pobl i'w gilydd yn ddwyieithog.
- Deall ymadroddion cyfarwydd bob dydd a mynd ati i'w defnyddio.
- Deall testunau byr iawn lle mae pobl yn rhoi gwybodaeth sylfaenol amdanynt eu hunain neu am bobl eraill mewn gohebiaeth ac ar ffurflenni, neu ddehongli cynnwys drwy ddefnyddio'r dechnoleg sydd ar gael.

Os nad yw'r ymgeisydd llwyddiannus yn meddu ar y sgiliau hyn, bydd yn derbyn hyfforddiant a disgwylir iddo ymrwymo i ddysgu yn ystod cyfnod y cytunir arno.

Rhoddir enghreifftiau o'r hyn i'w ddisgwyl ar gyfer asesu lefel Cymraeg Cwrteisi ar ein tudalen adnoddau ar y we.



I gael rhagor o wybodaeth am y lefelau gallu o ran y Gymraeg, ewch i'n gwefan.

## Meysydd cymhwysedd ac ymddygiadau'r lefel:

Dyma'r cymhwyseddau penodol y bydd disgwyl ichi eu dangos.

Bydd y meysydd cymhwysedd a'r ymddygiadau yn cael eu hasesu yn ystod y cam cyfweld ac **nid oes angen** rhoi sylw iddynt yn eich ffurflen gais.

### Arweinyddiaeth

- Gallu i herio'n adeiladol a bod yn barod i gael eich herio.
- Cymryd cyfrifoldeb dros gyflawni amcanion y tîm, gan barhau i fod yn weladwy, yn groesawgar ac wrth law yn ôl yr angen.

### Gweithio gydag eraill a'u gwerthfawrogi

- Rhannu gwybodaeth ag eraill yn y tîm, ac ymgynghori â hwy gan ddefnyddio'r dulliau cyfathrebu mwyaf priodol.
- Deall nodau ac amcanion corfforaethol ehangach, a bod yn ymwybodol o flaenoriaethau a materion gwleidyddol sensitif.

### Dysgu a gwella

- Gwneud penderfyniadau amserol a chyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ganfod a datrys materion allweddol.
- Chwilio am gyfleoedd i ddatrys problemau/gwneud gwelliannau, gan gynnwys defnyddio cyngor a chymorth fel sy'n briodol, datblygu opsiynau a chynnig ffordd ymlaen.

### Sicrhau canlyniadau i'n cwsmeriaid

- Cynllunio ymlaen llaw i ddiffinio blaenoriaethau a'r hyn y gellir ei gyflawni ac i baratoi cynlluniau wrth gefn cyn dechrau ar waith ac yn ystod gwaith.
  - Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun, gan reoli amser ac adnoddau'n effeithiol, a chan ystyried blaenoriaethau ac anghenion pobl eraill.
-

## Ar ddiwedd yr interniaeth

Ar ôl 12 mis gyda ni, dylai'r interniaid llwyddiannus fod wedi derbyn yr hyfforddiant sydd ei angen i sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i weithio ar lefel uwch (HEO/Band Rheoli 2). Isod mae rhestr o gymwyseddau y dylid gallu dangos tystiolaeth ohonynt erbyn diwedd yr interniaethau:

**Defnyddio arbenigedd:** Datblygu a chynnal gwybodaeth sy'n ymwneud â'r rôl a'r maes.

**Sicrhau canlyniadau:** Bod yn gyfrifol am greu cysylltiadau cynhyrchiol â chwsmeriaid.

**Dysgu a gwella:** Datblygu dewisiadau, nodi risgiau a manteision a chynnig ffordd ymlaen, monitro cynnydd a gwerthuso canlyniadau.

**Gweithio gydag eraill a'u gwerthfawrogi:** Meithrin cysylltiadau ac ymgynghori â rhwydweithiau y tu mewn i'r Senedd a'r tu allan iddi.

**Rhoi sylw i fanylion:** Y gallu i ddrafftio dogfennau'n gywir, megis llythyrau, nodiadau cyfarfodydd ac adroddiadau/papurau briffio.

**Ymwybyddiaeth wleidyddol:** Dealltwriaeth o flaenoriaethau gwleidyddion neu uwch-swyddogion neu randdeiliaid proffil uchel a'r cyd-destun gwleidyddol y maent yn gweithio ynddo.

## Ein Gwerthoedd :

Mae ein gwerthoedd yn rhan o bopeth a wnawn. Cyda'n gilydd, rydym wedi creu cyfres o werthoedd sy'n dathlu'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd, ac sy'n ein hatgoffa o bwy yr ydym a'r hyn sy'n bwysig inni.



### **PARCH**

Rydym yn gynhwysol ac yn garedig, ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau ein gilydd wrth ddarparu gwasanaethau rhagorol



### **ANGERDD**

Rydym yn bwrpasol wrth gefnogi democratiaeth, gan dynnu ynghyd i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru



### **BALCHDER**

Rydym yn arddel arloesedd ac yn dathlu ein llwyddiannau fel tîm

## **UN TÎM YDYM NI**

Edrychwn ymlaen at weld sut y mae eich gwerthoedd yn cyd-fynd â'n gwerthoedd ni, er mwyn i chi allu ein helpu i feithrin diwylliant cadarnhaol a chynhwysol.

## Ein hieithoedd swyddogol (Cymraeg a Saesneg):

Rydym yn gwbl ymrwymedig i wella ein gwasanaethau dwyieithog rhagorol yn barhaus ac i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog lle gall Aelodau o'r Senedd, y cyhoedd, staff ac interniaid ddewis gweithio neu gyfathrebu'n naturiol drwy ddefnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall, neu'r ddwy iaith, a lle caiff y defnydd o'r ddwy iaith ei annog a'i hwyluso'n rhagweithiol.

Er nad ydym yn ei gwneud yn ofynnol i bawb yn ein sefydliad fod yn rhugl yn ein dwy iaith swyddogol, rydym yn disgwyl iddynt oll ymrwymo i ddarparu gwasanaethau yn ein hieithoedd swyddogol. I'r graddau hynny, rydym yn disgwyl i'n hintern fod â sgiliau lefel cwrteisi yn y Gymraeg, neu i gaffael y sgiliau hyn yn ystod cyfnod y cytunir arno.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym yn awyddus i feithrin diwylliant cynhwysol yn ein sefydliad, gan ddenu a chadw'r ystod ehangaf o dalent ac, yn sgil hynny, sicrhau bod ein holl gyflogeion ac interniaid yn cyrraedd eu potensial llawn, ni waeth beth yw eu cefndir. Rydym am fod yn fwy cynrychioliadol o bob rhan o gymdeithas ar bob lefel yn y sefydliad.

Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer y Cynllun Interniaeth gan ystod amrywiol o bobl, o bob cefndir a chyda llawer o sgiliau, profiadau a safbwyntiau gwahanol. Rydym yn arbennig o awyddus i annog ceisiadau gan bobl anabl a phobl o gefndiroedd du, Asiaidd or lleiafrifoedd ethnig, oherwydd nad oes cynrychiolaeth ddigonol o'r grwpiau hyn yn ein sefydliad ar hyn o bryd. Mae rhagor o wybodaeth am ein hymagwedd tuag at amrywiaeth a chynhwysiant ar gael ar gael ar ein [gwefan](#).

Caiff pob penodiad ei wneud yn ôl teilyngdod

---

## Ymgeisiwch nawr!

Ceisiadau ar-lein yn agor	30 Tachwedd 2021
Sesiynau gwybodaeth rithwir	Wythnos yn dechrau 13 Rhagfyr 2021 (i'w gadarnhau)
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau	3 Ionawr 2022
Canolfan Datblygu Asesiadau Cymrodoriaeth Windsor (rhithwir)	10 Ionawr – 4 Chwefror 2022
Cyfweliad y Senedd (rhithwir)	Wythnos yn dechrau 14 Chwefror
Canlyniad	I'w gadarnhau
Clirio diogelwch a phreswyllo	Chwefror – Mawrth
Dyddiad cychwyn yr interniaeth	I'w gadarnhau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rhaglen, cysylltwch â Roda AdenR@windsor-fellowship.org